•

**ADRODDIAD I'R IS-GRŴP CYFLAWNI TRAFNIDIAETH**

**DYDDIAD: 14 Medi 2020**

**Teitl:** *Adolygiad Bysiau Rhanbarthol a Diweddariad Bysiau*

**Awdur:** Iwan Prys Jones - Rheolwr Rhaglen, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

## 1. Pwrpas yr Adroddiad

Diweddaru'r Aelodau ar y cynnydd gyda chynigion Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r trefniadau llywodraethu bysiau a'r cynnydd â datblygu dull rhanbarthol gyda'r rhwydwaith bysiau.

Yn ogystal, bydd yr adroddiad yn rhoi diweddariad cyffredinol i'r aelodau ar faterion eraill a adroddwyd mewn cyfarfodydd diweddar.

## 2. Y Penderfyniad a Geisir

Gwahoddir yr Aelodau i nodi'r diweddariad a'r cynigion ar gyfer y camau nesaf.

## 3. Rhesymau i gefnogi'r angen am benderfyniad

Mae'r adroddiad er gwybodaeth yn bennaf, i hysbysu'r aelodau am ddatblygiadau mewn perthynas â threfniadau llywodraethu a chyllido gwasanaethau bws ers yr adroddiad diwethaf a gwaith pellach sydd wedi'i gynllunio ar wasanaethau bws yng ngogledd Cymru.

Nid oes angen penderfyniad ffurfiol o ganlyniad i'r adroddiad.

## 4 Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol

Mae'r adroddiad yn ystyried tri mater cysylltiedig

- Diweddariad ar gynnydd yn sgil cyhoeddi cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio'r trefniadau rheoli ar gyfer rhwydweithiau bws.

- Diweddariad ar y cynnydd gyda'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Bysiau Rhanbarthol i'r Gogledd yn dilyn gwaith a gomisiynwyd gan y Bwrdd Uchelgais
- Diweddariad ar y gwaith a wnaed gan Arup ar ran Trafnidiaeth Cymru ar ddatblygu gweledigaeth a strategaeth bysiau ar gyfer Metro Gogledd Cymru

**Bysiau a Diwygio Trafnidiaeth Strategol**

Bydd aelodau'n cofio'r adroddiad yn y cyfarfod diwethaf oedd yn egluro safbwynt cyfredol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil Bysiau a'i gynigion i ddeddfwriaethu i sicrhau gwell trefniadau rheoli ar gyfer y rhwydwaith bysiau yng Nghymru. Ers hynny, mae'r pandemig Covid wedi cael effaith ddwfn ar y defnydd a wneir o fysiau ac ar y rhwydwaith ac erbyn hyn, Llywodraeth Cymru yw ariannwr dominyddol y diwydiant bysiau, gyda niferoedd defnyddwyr ac incwm o'r blwch ffioedd wedi disbyddu'n sylweddol o ganlyniad i'r galw is am gludiant.

Yn ei hanfod, mae'r sector cyhoeddus yn cyfrannu oddeutu £220 miliwn tuag at gostau'r diwydiant bysiau bob blwyddyn, gan gynnwys costau cludiant ysgol a choleg. Daw oddeutu £90 miliwn ychwanegol o incwm y blwch ffioedd. O ganlyniad i'r pandemig, mae niferoedd defnyddwyr bysiau wedi cwympo oddeutu 90%, ac er bod rhai arwyddion o adferiad, bydd yn cymryd cryn amser hyd nes y bydd adferiad ac mae'n debygol mai isel fydd y defnydd a wneir o fysiau am gyfnod sylweddol. Ar hyn o bryd, felly, mae'r arian gan Lywodraeth Cymru, yn ei hanfod, yn ariannu'r gwasanaethau cyfredol.

Yn ogystal, ystyrir bod y trefniadau rheoli ar gyfer y rhwydweithiau bws yn gymhleth. Mae'r mwyafrif o gaffael gwasanaeth yn cael ei wneud gan y 22 awdurdod lleol, gyda chyllid yn cael ei ddarparu o gymysgedd o gyllid craidd a ffrydiau cyllid penodol. Mae'r cymhlethdod hwn, sydd wedi datblygu dros gyfnod o 30 mlynedd, yn ddyrys ac nid yw o reidrwydd yn cefnogi diwygio rhwydweithiau i gyflawni blaenoriaethau allweddol y llywodraeth. Mae'r argyfwng Covid wedi tynnu sylw at ddiffyg gwytnwch y trefniadau a'r capasiti cyfredol ac at y gwendidau cynhenid eraill yn y system.

I gefnogi'r diwydiant mewn cyfnod cythryblus a lle mae gostyngiad wedi bod yn y galw, mae LlC wedi cyfeirio'r cyllid sy'n cael ei ddarparu i weithredwyr fel arfer, e.e. ad-dalu tocynnau mantais, neu BSSG, i un gronfa argyfwng.

Mae'r cynigion a gyflwynwyd gan LlC yn ddiweddar yn ceisio datrys y ddau fater hyn.
Yn gyntaf, defnyddio'r arian sy'n cefnogi'r diwydiant ar hyn o bryd i newid y dull o reoli'r system bysiau ar draws Cymru. Gallai'r dull ariannu diwygiedig hwn sicrhau'r buddion a geisir o'r ddeddfwriaeth sydd wedi'i hoedi.
Yn ail, mae eu cynigion yn darparu ar gyfer un dull rheoli ar gyfer cyflawni rhwydwaith integredig. Mewn gwirionedd, gwneir hyn er mwyn defnyddio Trafnidiaeth Cymru fel y prif gorff cyflawni a chaffael ar gyfer y system bysiau, gan drosglwyddo'r rolau o Awdurdodau Lleol, ac yn gyfnewid, bod yr ALl yn dod yn rhan "berchnogion" ar Drafnidiaeth Cymru. Byddai'r Gweinidog a Chynghorwyr yn gweithredu fel cyd-reolwyr ar Drafnidiaeth Cymru, gyda'r ALl yn chwarae eu rhan drwy'r CJC sy'n cael eu cynnig yn y ddeddfwriaeth Llywodraeth Leol sydd ar y gorwel.

Mae tri nod cyffredinol i'r cynigion

a. Creu rhwydwaith bysiau wedi'i dylunio, sydd wedi'i chydlynu'n well drwy un corff rheoli
b. Sicrhau bod modd i'r sector cyhoeddus ddefnyddio'r arian a ddarperir i weithredu lefel briodol o reolaeth dros reolaeth y rhwydwaith
c. Datblygu strategaeth ariannu hirdymor fel bod y rhwydwaith bysiau yn cefnogi'r economi ac uchelgeisiau ehangach Llywodraeth Cymru.

Mae'r cynigion hyn wrthi'n cael eu trafod gyda chynrychiolwyr awdurdod lleol, y diwydiant bysiau ac eraill sy'n ystyried y dull a'r cynigion. Tynnwyd sylw at sawl maes sy'n peri pryder, gan gynnwys effaith bosib y cynigion ar staff yr awdurdod lleol, pryderon am gynnwys costau cludiant ysgol yn y gronfa ariannu, pryderon nad yw mesurau lleihau tagfeydd a gwelliannau dibynadwyedd wedi'u hadlewyrchu'n gywir yn y cynigion a bod trafodaethau am drefniadau llywodraethu rhanbarthol yn y dyfodol a sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol heb gael eu datrys hyd yma.

Mae'r newidiadau sy'n cael eu cynnig yn yr adolygiad yn arwyddocaol. Gallai'r trafodaethau dros y misoedd nesaf arwain at ariannu a threfniadau rheoli amgen ar gyfer rhwydweithiau bysiau. Gallai'r effeithiau fod yn arwyddocaol ar gyfer staffio a threfniadau ariannu. Bydd adroddiadau pellach a chyfleoedd i drafod ar gael i Aelodau wrth i ragor o fanylion ddod i law.

**Datblygu Rhwydwaith Bysiau Rhanbarthol**

Mae cyflwyniadau wedi'u darparu i Aelodau eisoes ynghylch y potensial i ddatblygu dulliau a rhwydwaith bysiau strategol rhanbarthol. Ers y cyfarfod diwethaf, mae ymgynghoriaeth Busman wedi'i gwblhau ac mae adroddiad terfynol ar gael.

Mae'r gwaith a wnaed yn cynnwys yr hyn a ganlyn

- Adolygiad o Gynllun Rhwydwaith Bysiau Rhanbarthol 2014 ac ymyraethau ar gyfer bysiau sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol 2015.
- Adolygiad o'r rhwydwaith cyfredol (cyn Covid 19) gydag asesiad o ba lwybrau sy'n fasnachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) a pha rai sy'n cael eu tendro. Mae hyn yn cynnwys asesiad o fylchau yn y ddarpariaeth.
- Categoreiddio gwasanaethau yn: -
    - Strategol - gwasanaethau pellter hwy yn cysylltu canolfannau sy'n bwysig yn rhanbarthol
    - Craidd - Gwasanaethau sy'n cysylltu canolfannau lleol arwyddocaol
    - Lleol - Gwasanaethau sy'n cysylltu cymunedau â'u canolfan leol
    - Tref - Gwasanaethau sy'n gweithredu o fewn ardal tref, yn cysylltu ardaloedd preswyl, addysg a chyflogaeth
    - Arall - Gwasanaethau sydd â galw isel ond sy'n bodloni anghenion hygyrchedd.
- Adnabod llwybrau / ardaloedd ar gyfer partneriaethau ansawdd a rhaglen weithredu arfaethedig.
- Ardaloedd posib ar gyfer gwelliannau isadeiledd, yn enwedig mewn hybiau terfynfeydd a chyfnewidfeydd.
- Mae rhai cynigion cychwynnol yn cael eu datblygu ar gyfer gwella amserlennu.
- Adolygiad o fentrau cyfredol a pheilotiaid ar gyfer datrysiadau trafnidiaeth amgen ac sy'n ymateb i alw, yn y rhanbarth.

Mae'r adroddiad wedi'i gylchredeg fel atodiad i'r adroddiad er gwybodaeth.

Pan gafodd ei gomisiynu'n wreiddiol, rhagwelwyd y byddai ail wedd o'r gwaith yn cael ei wneud, i ddatblygu cynllun gweithredu ac i ddod i gytundeb â gweithredwyr bysiau a Llywodraeth Cymru dros opsiynau ariannu a datblygu.

Yn sgil y datblygiadau diweddar sydd wedi'u hamlygu yn rhan gyntaf yr adroddiad, mae ail elfen y gwaith a gynlluniwyd wedi'i oedi am y tro er mwyn rhoi cyfle i drafodaethau ynghylch rheolaeth y rhwydwaith a'r trefniadau llywodraethu ddod i ben.

**Metro a Rhwydwaith Bysiau Gogledd Cymru**

Bu i'r adroddiad i gyfarfod diwethaf y grŵp dynnu sylw at y ffaith y penodwyd Arup gan Drafnidiaeth Cymru i ddatblygu adroddiad ar Integreiddio Bysiau fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Metro Gogledd Cymru. Bellach, mae'r adroddiad cam gyntaf wedi'i gwblhau a bydd y canfyddiadau allweddol yn cael eu cyflwyno i Aelodau yn y cyfarfod. Atodir copi o'r adroddiad cryno er gwybodaeth.

Mae'r adroddiad yn cadarnhau y bydd diwygiad ehangach o'r trefniadau llywodraethu ac ariannu ar gyfer bysiau yn alluogwr allweddol ar gyfer trawsffurfio'r rhwydweithiau bysiau, fel y gellir gwella'r siwrne i deithwyr, ac yn bwysig iawn, ar gyfer y rhai nad ydynt yn defnyddio'r bws ar hyn o bryd.

Yn ogystal, mae'n nodi nifer o ymyraethau cysylltiedig y dylid eu datblygu i gefnogi datblygiad y rhwydwaith. Mae'r rhain yn debyg i'r rhai y tynnir sylw atynt yn yr adroddiad a baratowyd gan Ymgynghoriaeth Busman, felly mae cynigion Arup yn adeiladu ar y gwaith a wnaed hyd yma.

Y camau nesaf arfaethedig yw datblygu asesiad manwl o anghenion cludiant presennol ac yn y dyfodol a mynd ati i ddyfeisio cynigion manwl o welliannau i'r rhwydwaith. Yn olaf, bydd cynllun cyflawni’n cael ei baratoi er gweithrediad, a rhagwelir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau yn y Gwanwyn 2021.

Bydd cydweithwyr o Drafnidiaeth Cymru ac Arup yn bresennol yn y cyfarfod i roi diweddariad ar eu canfyddiadau manwl hyd yma.

**5. Goblygiadau Ariannol**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol penodol o'r adroddiad hwn; yn bennaf, mae'n rhoi gwybodaeth am waith sydd ar y gweill ar hyn o bryd ac ar effaith bosib y newidiadau arfaethedig i'r drefn llywodraethu ac ariannu.

Mae'n ddigon posib y bydd effeithiau'r cynigion hyn, wedi iddynt gael eu mabwysiadu, yn cael effeithiau ariannol arwyddocaol; fodd bynnag, tynnir sylw at y rhain mewn adroddiadau diweddaru yn y dyfodol neu yn ystod yr ymgynghoriad y dylid ei gynnal cyn gweithredu.

**6. Goblygiadau Cyfreithiol**

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol penodol o’r adroddiad hwn. Bydd newidiadau arfaethedig Llywodraeth Cymru i ariannu a llywodraethu yn cael effeithiau arwyddocaol, ond cynhelir ymgynghoriad penodol a bydd gan Aelodau gyfle i wneud sylwadau yn ystod y cyfnodau ymgynghori gofynnol.

**7. Goblygiadau Staffio**

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau staffio penodol ar y cam hwn - mae'r adroddiad yn rhoi diweddariadau ar y gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

**8. Effaith ar Gydraddoldeb**

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cydraddoldeb penodol ar y cam hwn - mae'r adroddiad yn rhoi diweddariadau ar y gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Cynhelir ymgynghoriad manwl ar unrhyw adroddiadau lle bydd effeithiau'n bosib yn ystod y broses ymgynghori briodol.

**9. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd**

Nid oes angen unrhyw ymgynghori penodol ar y cam hwn - mae'r adroddiad yn rhoi diweddariadau ar y gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Cynhelir ymgynghoriad manwl ar unrhyw adroddiadau lle bydd effeithiau'n bosib yn ystod y broses ymgynghori briodol.

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - corff atebol:**

---

Tra’n nodi nad oes oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol yn deillio o’r adroddiad, mi fydd angen mewnbwn cyfreithiol pan fydd cynigion Llywodraeth cymru yn derfynnol ac yn ystod y broses ymgynghori. Gan fod yr adroddiad er gwybodaeth yn unig, nid oes unrhyw sylwadau pellach o ochr priodoldeb.

**ii. Pennaeth Cyllid - corff atebol:**

Mae'r adroddiad diweddaru yma er gwybodaeth yn bennaf ac mae'n nodi nad oes unrhyw oblygiadau ariannol penodol yn codi.  Cyflwynir sylwadau pellach i gyfarfod (cydbwyllgor) Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru os / pryd bydd yr Is-grŵp Cyflenwi Trafnidiaeth yn gofyn am adnoddau ychwanegol i gyflawni’r materion hyn.